



11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

Sut i Gyflwyno Tystiolaeth a Rhoi Tystiolaeth Ar Lafar

Trosolwg

1. Pwyllgorau'r Cynulliad
2. Ymchwiliadau Pwyllgorau Pwnc y Senedd
3. Drafftio Tystiolaeth Ysgrifenedig
4. Rhoi tystiolaeth ar lafar
5. Logisteg
6. Camau nesaf

Mae gan Senedd Cymru nifer o bwyllgorau y mae eu rolau'n ymwneud â chynnal ymchwiliadau i benderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru neu archwilio deddfwriaeth newydd arfaethedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, maen nhw'n galw'n rheolaidd am dystiolaeth gan fudiadau ac unigolion er mwyn eu cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r maes polisi dan sylw a sut y caiff ei gyflawni ar lawr gwlad, neu er mwyn pennu effaith cyfraith newydd arfaethedig.

Pwyllgorau'r Cynulliad

Pwyllgorau yw un o'r prif ddulliau sy'n galluogi'r Senedd i fodloni ei dyletswydd i graffu ar Lywodraeth Cymru.

Mae'r pwyllgorau, sydd wedi'u sefydlu i edrych ar bynciau penodol, yn cynnwys nifer bychan o Aelodau'r Senedd o wahanol bleidiau sy'n ymgymryd â gwaith manwl mewn meysydd polisi diffiniedig.



Llun: Rhywun yn rhoi tystiolaeth ar lafar mewn cyfarfod pwyllgor

Mae gan y Senedd bwyllgorau sydd wedi'u sefydlu i edrych ar bynciau penodol. Mae'r gwaith y maen nhw'n ei wneud yn cynnwys cynnal ymchwiliadau i benderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru a chraffu ar Weinidogion Llywodraeth Cymru wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Maen nhw hefyd yn chwarae rôl mewn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda, a gallant ofyn cwestiynau i gyrff cyhoeddus a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Ynghyd â hyn, mae ganddynt rôl bwysig yn y gwaith o archwilio cyfreithiau newydd arfaethedig a sut gallent weithio yng Nghymru.

Mae'r gwaith gweinyddu beunyddiol yn cael ei wneud gan dîm clericio, ac maen nhw'n cael eu cefnogi gan nifer o swyddogion eraill.

Ymchwiliadau Pwyllgorau Pwnc y Senedd

Mae Pwyllgorau Pwnc yn canolbwyntio ar feysydd polisi penodol. O fewn y meysydd eang hynny, gall aelodau'r pwyllgor ddewis ymchwilio i bynciau penodol mewn cryn fanylder, a byddant fel arfer yn archwilio'r mater drwy ymchwiliadau.

Maen nhw wedi'u cynllunio i ystyried polisi cyfredol Llywodraeth Cymru, sut caiff ei gyflenwi, a yw'n bodloni ei amcanion sefydledig ac a ellid gwneud unrhyw welliannau. Gallant hefyd ymchwilio i feysydd o fudd i'r cyhoedd lle y credant y dylai'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus gymryd camau.

Mae pwyllgorau'n dewis pynciau penodol i'w hymchwilio am lawer o resymau. Efallai bod materion amlwg o arwyddocâd cenedlaethol, megis yr ymchwiliadau i effaith Covid-19 ar sectorau penodol. Gallai fod gan Aelod unigol o'r Senedd ddiddordeb gwleidyddol neu bolisi penodol.

Yn ogystal â hyn, caiff syniadau ac awgrymiadau eu lleisio'n aml gan fudiadau allanol drwy lobïo Aelod unigol o'r Senedd neu'r pwyllgor yn gyffredinol. Bydd y Pwyllgorau Pwnc hefyd yn ystyried yn fanwl unrhyw gyfreithiau newydd a gynigir yn y meysydd y maen nhw'n ymdrin â nhw.

Mae'r Pwyllgorau hyn yn dibynnu ar dderbyn tystiolaeth a gwybodaeth gan fudiadau ac unigolion allanol er mwyn eu helpu i gyflawni eu rôl graffu yn ystod ymchwiliadau pwyllgor ac wrth ystyried deddfwriaeth. Rhan allweddol o'u gwaith felly yw galw am dystiolaeth, ac adolygu'r dystiolaeth a gyflwynir er mwyn llunio argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill.

Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn eu pwnc neu ddeddfwriaeth ddewisol fisoedd cyn iddynt gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda mudiadau neu unigolion allanol.

O bryd i'w gilydd, gallai'r pwyllgor fod yn gweithio i amserlen fyrrach neu'n chwilio am adborth a thystiolaeth mewn ymateb i wybodaeth a gyflwynwyd gan bobl eraill, neu gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mewn achosion o'r fath, byddai llai o amser i goladu tystiolaeth gan fudiadau ac unigolion.

Drafftio Tystiolaeth Ysgrifenedig

Er mwyn bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd, byddai'n fuddiol i chi gofrestru i dderbyn bwletinâu gwybodaeth o'r pwyllgorau ar e-bost drwy dudalennau pwyllgor gwefan y Senedd.

Mae'r pwyllgorau hefyd yn cyhoeddi '**Blaenraglen Waith**' yn aml ar gyfer y meysydd y mae aelodau wedi'u nodi ar gyfer y tymor i ddod, a fydd yn cynnwys manylion ymchwiliadau a meysydd dan sylw. Fel arfer, gwneir hyn ar ddechrau'r tymor ac mae ar gael ar dudalennau pwyllgor gwefan y Senedd.

Bydd pwyllgor yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth drwy restr bostio uniongyrchol y bydd y tîm clericio wedi'i llunio, ac yn gyhoeddus drwy wefan y Senedd a thrwy ffynonellau newyddion.

Bydd tudalen benodol ar wefan y pwyllgor a fydd yn amlinellu cefndir yr ymchwiliad neu ddeddfwriaeth, y meysydd penodol dan sylw, amserlen yr ymgynghoriad a chwestiynau i'w hateb, a sut i gyflwyno'ch ymateb.

Os ydych chi'n paratoi tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad pwyllgor, mae bob amser yn werth gwirio'r amserlenni cysylltiedig gyda'r tîm clericio a phennu natur yr ymchwiliad y maen nhw'n ei gynnal. Bydd eu manylion cyswllt ar dudalennau pwyllgor gwefan y Senedd.

Wrth ddrafftio eich cyflwyniad, canolbwyntiwch eich atebion ar y cwestiynau a ddarparwyd o hyd. Os oes gennych chi sylwadau ychwanegol i'w hychwanegu neu gefndir i'w ddarparu, gallwch chi ychwanegu'r wybodaeth hon ar ddiwedd eich cyflwyniad. Mae hefyd yn ddefnyddiol cynnwys trosolwg byr o'ch mudiad, gwaith, effaith a'ch cyrhaeddiad er mwyn amlygu eich awdurdod, gwaith neu ddiddordeb yn y pwnc dan sylw.

Dylai eich cyflwyniad gynnwys ffeithiau, tystiolaeth ac ystadegau lle y bo'n briodol a dylid osgoi cynnwys barn bersonol.



Cofiwch

Efallai na fydd Aelodau o'r Senedd mor gyfarwydd â'r maes polisi dan drafodaeth ag ydych chi, felly mae bob amser yn werth egluro unrhyw derminoleg neu acronymau y gallech chi fod yn eu defnyddio yn eich gwaith beunyddiol.

Bydd eich cyflwyniad yn cael ei roi ar wefan y pwyllgor i bawb ei weld. Os nad ydych eisiau iddo fod yn gyhoeddus am unrhyw reswm sy'n ymwneud â chyfrinachedd, cysylltwch â chlerc y pwyllgor i egluro'r sefyllfa cyn cyflwyno eich tystiolaeth. Ceisir gwybodaeth gan Aelodau o'r Senedd yn bennaf er mwyn pennu sut mae polisi Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflenwi, ei effaith, a sut gellir ei wella.

Os yw'r pwnc dan sylw yn un rydych chi'n frwd iawn yn ei gylch a'ch bod chi'n credu bod gennych ragor o wybodaeth i'w rhannu a allai fod o fudd i'r pwyllgor yn ei waith, gallwch gysylltu â'r tîm clerco ar ôl anfon eich cyflwyniad ysgrifenedig i gynnig rhoi tystiolaeth ar lafar. Ar ôl cael cyngor gan y tîm clerco, aelodau'r pwyllgor fydd â'r penderfyniad olaf ynghylch pwy hoffent ei holi ymhellach mewn cyfarfod pwyllgor.

Rhoi Tystiolaeth Ar Lafar

Ar ôl derbyn tystiolaeth ysgrifenedig, bydd yr Aelodau o'r Senedd a'r tîm clerco'n trafod y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg yn y dystiolaeth a gyflwynwyd, a'r meysydd sydd angen ymchwilio iddynt ymhellach. Byddant hefyd yn penderfynu pa fudiadau yr hoffent eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth iddynt mewn cyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

Os gofynnir i chi roi tystiolaeth ar lafar, bydd y tîm clerco yn cysylltu â chi i amlygu pryd a sut fydd hyn yn digwydd. Cyn Covid-19, byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn y Senedd ym Mae Caerdydd, ac yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, roedden nhw'n cael eu cynnal ar-lein drwy Zoom. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd i barhau i wneud rhith-gyflwyniad i bwyllgorau yn y dyfodol.

Mae'n bwysig cofio nad yw darparu tystiolaeth ar lafar yn brawf o'ch gallu, ac nid yw aelodau'r pwyllgor yn ceisio'ch baglu. Yr wybodaeth a gyflwynwyd yn eich cyflwyniad ysgrifenedig sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Maen nhw'n deall bod gennych arbenigedd yn y maes polisi penodol ac yn dymuno cael gwell dealltwriaeth o'r pwnc.

Bydd angen i chi gyfarwyddo'ch hun â'r cyflwyniad ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar ran eich mudiad er mwyn paratoi ar gyfer eich sesiwn dystiolaeth ar lafar. Gallwch gael nodiadau a phapurau briffio wrth law i'ch helpu chi gyda'ch atebion yn ystod y sesiwn.



Gwybodaeth

Os yw'r pwnc dan sylw yn faes y mae aelod arall o staff o fewn eich mudiad yn arbenigo ynddo, gallwch ofyn i'r unigolyn hwnnw ymuno â chi yn sesiwn y pwyllgor.

Wrth i chi baratoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth, mae bob amser yn werth gwrando'n ôl ar gyfarfodydd pwyllgor blaenorol er mwyn nodi'r pynciau a fydd yn debygol o gael eu codi gyda chi. Mae sesiynau tystiolaeth blaenorol yn rhoi mewnwleidiad i chi hefyd o ba Aelod o'r Senedd sydd â diddordeb yn y materion penodol a sut maen nhw'n mynd ati i gynnal yr ymchwiliad.

Mae'n bosibl y bydd gan aelodau'r pwyllgor ddealltwriaeth dda o bwnc yr ymchwiliad neu ddeddfwriaeth oherwydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ysgrifenedig. Yn ogystal â hyn, bydd y tîm clericio wedi nodi'r prif feysydd i ganolbwyntio arnynt ac wedi darparu cwestiynau awgrymedig ar gyfer yr Aelodau o'r Senedd.

Wedi dweud hynny, dylech ystyried y prif bwyntiau sydd angen i chi eu crybwyll yn yr amser sydd gennych wrth baratoi ar gyfer eich sesiwn dystiolaeth ar lafar, yn hytrach na'r ffordd orau o ateb y cwestiynau a ofynnir.

Os byddant yn gofyn cwestiynau na allwch chi eu hateb, peidiwch ag ofni dweud nad ydych chi'n gwybod. Os nad oes gennych chi'r wybodaeth wrth law, cynigiwch ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth fel cam dilynol. Maen nhw'n gwerthfawrogi'r gonestrwydd ac ni fyddent yn croesawu siarad gwast nac ymdrechion i ddarparu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol.



Gwybodaeth Bwysig

Mae hefyd yn bwysig cofio y byddwch, yn y mwyafrif o achosion, yn rhoi tystiolaeth fel cynrychiolydd o'ch mudiad, felly dylid osgoi barnau pleidiau gwleidyddol neu farn bersonol.

Yn gyffredinol, mae aelodau'r pwyllgor yn ceisio gweithio gyda'i gilydd i archwilio a chraffu ar feysydd polisi a deddfwriaethau, ac yn y mwyafrif helaeth o achosion, ceisiwch greu consensws ynghylch argymhellion ar gyfer camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

Mae bob amser yn werth cofio, fodd bynnag, fod gwahanol ddynnameg wleidyddol ar waith. Mae'r pwyllgor yn cynnwys Aelodau Senedd o'r pleidiau sy'n llywodraethu ac o'r gwrthbleidiau. Gallai eu cymhellion amrywio o bryd i'w gilydd.

Logisteg

Bydd y tîm clericio'n cysylltu â chi cyn sesiwn y pwyllgor i gadarnhau'r trefniadau logistaidd ac egluro elfennau technolegol y sesiwn. Caiff pob cyfarfod pwyllgor ei ddarlledu'n fyw ar Senedd.tv, ac mae holl drafodion y Senedd yn ddwyieithog, felly gall pob cyfranogwr gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg.

Os nad ydych chi'n deall Cymraeg, bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu ar eich cyfer. Bydd y tîm clericio ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych cyn y cyfarfod. Mewn rhai achosion, bydd y tîm clericio hefyd yn rhannu'r pynciau dan sylw â chi, a'r meysydd holi tebygol.

Mae rhai Aelodau o'r Senedd yn dilyn y cwestiynau awgrymedig a osodwyd gan y tîm clericio, ond nid yw eraill yn gwneud hyn. Cofiwch bob amser y gall Aelodau o'r Senedd ofyn unrhyw gwestiynau sy'n briodol yn eu tyb nhw. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn gofyn i chi gyflwyno'ch hun a'ch mudiad, a gallai ofyn i chi am sylwadau rhagarweiniol. Mae'n werth paratoi cyflwyniad byr i chi a'ch mudiad a nodi'r prif bwyntiau yr hoffech chi ei wneud.

Mewn achosion eraill, bydd y Cadeirydd yn mynd yn syth at gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor. Dylech gymryd yn ganiataol fod holl aelodau'r pwyllgor wedi darllen eich cyflwyniad ysgrifenedig gwreiddiol, felly bydd y sesiwn yn cael ei defnyddio i adeiladu ar y pwyntiau a godwyd a threiddio'n ddyfnach i'r materion a gyflwynir gennych.

Yn dibynnu ar y pwysau amser ar sesiwn y pwyllgor, mae'n bosibl hefyd y byddant yn gofyn am sylwadau cloi neu'n gofyn i chi amlygu unrhyw fater arall yr hoffech chi ei ystyried nad yw wedi codi yn ystod y cwestiynau.

Bydd y tîm clericio yn cysylltu â chi rai diwrnodau ar ôl y cyfarfod gyda thrawsgrifiad ysgrifenedig o'r cyfarfod. Bydd hwn yn gyfle i chi wirio cywirdeb ffeithiol y trawsgrifiad yn hytrach na chyfle i ychwanegu pwyntiau ychwanegol neu ddiwygio'r hyn a ddywedwyd. Bydd y trawsgrifiad wedyn yn gyhoeddus.

Camau Nesaf

Ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar a chraffu ar y pwnc dan sylw, bydd y pwyllgor yn trafod y themâu sy'n dod i'r amlwg a'r meysydd a fydd yn cael eu hargymell i Lywodraeth Cymru fel rhai sydd angen iddyn nhw weithredu arnynt. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr holl sbectrwm gwleidyddol yn cytuno â'r argymhellion.

Dim ond ambell i achos sydd wedi bod lle nad yw Aelod unigol o'r Senedd wedi cytuno â barn a chasgliadau ymchwiliad mwyafrif y pwyllgor, a naill ai wedi gofyn i'w wrthwynebiad gael ei gofnodi yn erbyn argymhelliad penodol neu adroddiad cyfan, neu wedi drafftio a chyhoeddi 'adroddiad lleiafrifol' i gydnabod nad yw ymateb y pwyllgor yn unfrydol.

Caiff adroddiad ac argymhellion yr ymchwiliad eu cyflwyno wedyn i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru a'u gwneud yn gyhoeddus. Mewn llawer o achosion, bydd yr adroddiad yn cyfeirio at dystiolaeth a gyflwynwyd gan fudiadau penodol yn eu hadroddiad terfynol, a byddant yn aml yn dyfynnu o'r dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar a gyflwynwyd.

Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad a'i argymhellion. Bydd adroddiad yr ymchwiliad ac ymateb y Llywodraeth yn destun trafod yn y Senedd. Yn gyffredinol, bydd Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio dod o hyd i ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y pwyllgor lle'n bosibl.

Maen nhw'n tueddu i werthfawrogi a pharchu gwaith y pwyllgor o gasglu tystiolaeth a chymryd yr amser i archwilio maes polisi yn fanwl, mewn modd mor amhleidiol â phosibl.

Gallai'r pwyllgor wedyn ddewis ail-archwilio'r maes polisi ar ôl cyfnod penodol o amser er mwyn asesu a yw'r Llywodraeth wedi gweithredu ar yr argymhellion, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael.



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.